Cyngor Caerdydd

# Strategaeth Toiledau Lleol

# Datganiad Cynnydd Dros Dro

## Chwefror 2022



# Cyd-destun

Yn unol â Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 mae angen i bob awdurdod lleol yng Nghymru gyhoeddi strategaeth toiledau lleol. Cyhoeddwyd strategaeth Cyngor Caerdydd ym mis Rhagfyr 2019.

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 Rhan 8 yn canolbwyntio ar 'Ddarparu Toiledau'. Mae darparu a chynnal toiledau mewn lleoedd cyhoeddus yn swyddogaeth ddisgresiynol gan awdurdodau lleol sydd â'r grym dan adran 87 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936 i ddarparu cyfleusterau cyhoeddus. Nid oes dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu toiledau cyhoeddus yn uniongyrchol.

Fodd bynnag, rhaid i awdurdodau lleol roi barn strategol ar sut y gellir darparu a defnyddio cyfleusterau; mynd i'r afael â ffactorau megis lleoliad, hygyrchedd, cyfleusterau, amlder defnydd ac ansawdd safleoedd presennol, yn ogystal â phenderfynu a oes angen safleoedd ychwanegol neu lai ohonynt ar eu poblogaeth leol.

Cyn cyhoeddi strategaeth 2019, cynhaliodd Cyngor Caerdydd dri adolygiad ar wahân o ddarpariaeth toiledau ledled y ddinas, yn ogystal ag asesiad o ddarpariaeth Lleoedd Newid.

I gefnogi gofynion y Ddeddf, mae Cyngor Caerdydd wedi mabwysiadu dull integredig sy'n canolbwyntio ar y gymuned wrth ddarparu cyfleusterau cyhoeddus.

Sefydlodd y strategaeth gynllun gweithredu 2 flynedd a chwmpasu ystyriaethau a chyfleoedd yn y dyfodol wrth fynd i'r afael ag anghenion cymunedau lleol wrth iddynt esblygu. Mae effaith y pandemig wedi cael effaith anochel ar ddatblygu nodau cyffredinol y strategaeth yn ogystal â rhwystro mynediad presennol at ddarpariaeth toiledau cymunedol.

Mae'n ofynnol i Gaerdydd gyhoeddi datganiad cynnydd dros dro ar Strategaeth Toiledau Lleol 2019. Mae'r datganiad hwn yn berthnasol i'r cyfnod o ddwy flynedd rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Rhagfyr 2021. Cyhoeddir yr adolygiad llawn o'r strategaeth ym mis Mai 2023.

## Amcnanion Strategol

- *Gweithio mewn partneriaeth i wella a gwneud y mwyaf o gyfleusterau presennol.*
- *Hyrwyddo cyfleusterau ychwanegol, priodol a hygyrch*

## Nod y Strategaeth

Nod Strategaeth Toiledau Lleol Caerdydd yw sicrhau bod pawb sy'n byw yn y ddinas neu'n ymweld â hi’n gallu defnyddio toiledau fel sydd angen i fodloni eu hanghenion ffisiolegol. Elfen allweddol o'r nod cyffredinol hwn yw bod pobl yn cael gwybod am leoliad y cyfleusterau, ar yr adeg y mae eu hangen.

Cyflawnir nodau'r strategaeth hon drwy gyfuniad o gyfleusterau a weithredir gan y cyngor yn ogystal â sefydliadau allanol sy'n cymryd rhan yn y cynllun toiledau cymunedol.

## Effaith y Pandemig

Mae'n anochel bod pandemig Covid-19 wedi effeithio ar y cynnydd ar nodau'r strategaeth toiledau. Drwy gydol y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd llawer o fusnesau ar gau am gyfnodau sylweddol wrth i'r staff gael eu rhoi ar ffyrlo neu eu cyfarwyddo i weithio gartref. Roedd hyn yn cyfyngu ar y potensial i fynd at bartneriaid yn y sector preifat neu o fewn y gymuned i archwilio cyfranogiad yn y cynllun toiledau cymunedol. Fodd bynnag, mae gwaith ar yr agwedd hon ar y strategaeth toiledau cyhoeddus wedi dechrau symud ymlaen yn ddiweddar.

## Datblygiadau Allweddol

- Cyflwyno arwyddion hygyrch newydd yn raddol i fynd i'r afael â gwahaniaethu
- Cynnydd yn y ddarpariaeth toiledau sydd ar gael
- Gwelliannau i'r ddarpariaeth toiledau bresennol
- Cynnydd o ran cyfeirio'n weladwy at argaeledd toiledau cyhoeddus
- Ymagwedd at fusnes Canol y Ddinas mewn perthynas â chymryd rhan mewn cynllun toiledau cymunedol
- Alinio â Chaerdydd yn gweithio tuag at agenda Dinas o Gyfleoedd i’r Henoed yn ogystal â Chaerdydd sy’n Deall Dementia
- Cynnydd yn erbyn cynllun cyfathrebu i gynyddu ymwybyddiaeth o fapio toiledau yn y ddinas
- Mae mapio Lleoedd Newid wedi digwydd hefyd, gyda dulliau wedi'u gwneud i'w hychwanegu at y cynllun toiledau cymunedol yn ogystal â sicrhau bod y cyfleusterau hyn hefyd yn cael eu hyrwyddo ar Toiledau Lleoedd Newid (changing-places.org).

# Pa gynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn nodau'r strategaeth?

## Darpariaeth well

Mae'r prosiect Hybiau wedi sicrhau enillion sylweddol i gymunedau Caerdydd ers iddo gael ei dreialu yn hydref 2011. Erbyn hyn mae rhwydwaith o Hybiau Cymunedol ledled Caerdydd.

Mae prosiect Hybiau yn sicrhau bod dinasyddion ar draws pob rhan o'r ddinas yn cael cyfleoedd sy'n gwella eu cyfleoedd bywyd mewn adeiladau sy'n darparu mannau ffisegol diogel, deniadol a hygyrch. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth toiledau hygyrch. Yn ystod 2021, cwblhawyd gwaith adnewyddu helaeth ar Hybiau Rhydypennau a'r Eglwys Newydd. Yn achos yr Eglwys Newydd, nid oedd toiledau cyhoeddus ar gael o'r blaen. Mae ymwelwyr â'r Hybiau yn mwynhau'r cyfleusterau newydd yn ogystal ag ymwelwyr â'r parciau lleol cyfagos.



*Toiledau Hyb yr Eglwys Newydd*

**"Mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'm teulu"**

**"Mae gan fy mam ddementia ac mae mor anodd bod yn hyderus pan fyddaf yn mynd â hi allan oherwydd rwy'n gwybod y bydd angen y toiled arni - diolch yn fawr am roi'r toiledau hyn yn yr Eglwys Newydd "**

**"Rwy'n feichiog ac mae gen i fachgen bach – mae mor wych bod toiledau Hyb yr Eglwys Newydd yn golygu y gallwn nawr fynd allan a mwynhau'r parc – heb straen!!!"**

Cardiff 50+ Caerdydd | Toiled Toilet | Uchelgais Prifddinas Capital Ambition | Cardiff Caerdydd






***Toiled Hwb Rhydypennau***

## Capel i Bawb

Mae hen Gapel y Ysbyty Brenhinol Caerdydd wedi cael ei drawsnewid yn ddiweddar yn gyfleuster iechyd a lles bywiog i drigolion lleol. Mae bellach yn gartref i lyfrgell newydd, mannau cyfarfod, ystafell TG a Chaffi 'Aroma'.

Mae toiledau mynediad cyhoeddus bellach ar gael yn y mannau cymunedol gan gynnwys toiled cwbl hygyrch a chyfleusterau newid babanod.

***Toiledau Capel i Bawb***

## Archwiliad Amgylchedd Dementia

Mae Hybiau Caerdydd wedi'u lleoli o amgylch y ddinas, gan ddarparu ystod gynhwysfawr o wasanaethau'r Cyngor a phartneriaid i'r gymuned leol. Mae'r Hybiau'n adeiladau hygyrch a bywiog sydd wedi'u cynllunio i gael eu mwynhau gan bawb. Mae'n hanfodol bwysig bod darpariaeth toiledau yn yr Hybiau yn hygyrch ac yn gynhwysol, er mwyn diwallu anghenion pob ymwelydd, yn enwedig y rhai sy'n aml yn wynebu rhwystrau pan fyddant allan yn y gymuned oherwydd cyfleusterau toiled annigonol e.e. pobl hŷn, rhieni â phlant, unigolion â dementia.

Wrth i Gaerdydd weithio tuag at ddod yn Ddinas sy'n Deall Dementia, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i wneud newidiadau cadarnhaol i wella bywyd i'r rhai sy'n byw gyda dementia.

Cynhaliwyd archwiliad amgylcheddol dementia o Hybiau, canolfannau dydd a Chanolfan Gelfyddydau Neuadd Llanofer ym mis Rhagfyr 2021. Roedd y canlyniadau'n dangos mai dim ond pedwar toiled Hyb oedd â sedd toiled a oedd yn gwrthgyferbynnu â phrif gorff y toiled. Mae lliwiau cyferbyniol yn hanfodol i gynorthwyo person sydd â dementia i wneud defnydd diogel o gyfleusterau ystafell ymolchi.

Daethpwyd o hyd i seddi toiled newydd sy'n briodol i ddementia ar unwaith ac mae'r gwaith gosod wedi dechrau cael ei gyflwyno'n raddol.

Caerdydd Dementia Gyfeillgar
Dementia Friendly Cardiff

Cardiff 50+ Caerdydd
Toiled Toilet
Uchelgais Prifddinas Capital Ambition
Cardiff Caerdydd

## #BeTheChange

Mae #BeTheChange yn ymgyrch sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth nad yw pob salwch yn weladwy a'i nod yw mynd i'r afael â'r gwahaniaethu y gall pobl ei brofi wrth ymweld â thoiledau hygyrch. Cafodd arwyddion toiledau newydd a gynlluniwyd gan fyfyrwyr o Brifysgol Metropolitan Caerdydd mewn cydweithrediad â Pelican Healthcare, un o brif wneuthurwyr cynhyrchion tafladwy ar gyfer gofal stoma, ei gyflwyno’n raddol yng Nghaerdydd ym mis Mehefin 2021. Mae'r cylch sydd wedi torri yn symbol o'r gwahanol afiechydon y mae pobl yn eu profi. Mae'r arwyddion yn cynrychioli'r rhai sydd angen cyfleusterau toiled hygyrch ac na fyddant efallai'n dangos unrhyw arwydd gweladwy bod ganddynt angen ychwanegol amdanynt. Mae'r arwyddion newydd wedi'u gosod ar doiledau hygyrch ym mhob Canolfan gymunedol a Llyfrgell ledled y ddinas i gefnogi'r rhai sydd ag afiechydon anweledig.

Y gobaith yw y bydd yr arwyddion yn cael eu cyflwyno ymhellach ar draws y ddinas, a bydd perchnogion busnesau preifat yn ei fabwysiadu i gefnogi'r 92% o ddefnyddwyr toiledau i bobl anabl sydd â salwch cudd.



***Symbol toiled cylch wedi torri***

## Lleoedd Newid

Mae toiledau Lleoedd Newid yn gyfleusterau sy'n galluogi pawb, waeth beth fo'u hanghenion mynediad, anabledd neu ddibyniaeth ar gymorth gofalwyr neu offer arbenigol, i ddefnyddio cyfleuster toiled gydag urddas ac yn hylan.

Yn aml, mae angen offer a lle ychwanegol ar bobl ag anableddau dysgu dwys a lluosog neu ag anableddau corfforol fel anafiadau i'r asgwrn cefn, nychdod cyhyrol a sglerosis ymledol i'w galluogi i ddefnyddio'r toiledau'n ddiogel ac yn gyfforddus. Dylid darparu toiledau Lleoedd Newid yn ogystal â thoiledau hygyrch safonol.

Mae darparu Lleoedd Newid yn galluogi pobl i gael mwy o ddewis i gael mynediad at fwy o weithgareddau yn y gymuned, heb orfod mynd adref, cael eu newid mewn amgylchiadau heb eu nodi neu fod yn anghyfforddus a theimlo'n aflan.  Mae'r gwaith o gwmpasu'r sefyllfa o ran argaeledd lleoedd newid yng Nghaerdydd wedi'i gwblhau a lle nodwyd cyfleusterau ychwanegol mae'r rhain wedi'u cofrestru gyda [www.changing-places.org.](http://www.changing-places.org)



***Lle Newid yn Hyb Llaneirwg***


## Gwella ymwybyddiaeth a gwybodaeth sydd ar gael am ddarpariaeth toiledau ledled y ddinas

Mae'n hanfodol bod preswylwyr ac ymwelwyr yn gallu dod o hyd i'r cyfleusterau toiled addas agosaf ar gyfer eu hanghenion yn hawdd ac yn gyflym fel y gallant fynd allan a chymryd rhan lawn yn eu cymuned a'u prifddinas.

Cymerwyd gwaith cychwynnol i archwilio ateb mapio toiledau lleol sy'n hawdd ei ddefnyddio y gall dinasyddion ac ymwelwyr ei ddefnyddio ar eu dyfeisiau symudol. Mae sgyrsiau'n mynd rhagddynt gyda Croeso Caerdydd i gynnal y map rhyngweithiol, sy'n addas i ffonau symudol ar y wefan. Mae Croeso Caerdydd yn gorff twristiaeth swyddogol Caerdydd ac mae gan y wefan wybodaeth eisoes fel trafnidiaeth gyhoeddus a bygi symudedd. Gallai mapio toiledau fod ochr yn ochr â'r rhain. Bydd dolenni'n uniongyrchol i'r dudalen hon ar gael ar wefannau Cyngor Caerdydd / Dinas o Gyfleoedd i'r Henoed ac ati.

Opsiwn arall sy'n cael ei archwilio ar gyfer y gwasanaeth hwn yw'r posibilrwydd y bydd y wybodaeth yn cael ei chynnal ar app Gov Caerdydd. Mae'r ap hwn yn defnyddio gwasanaethau 'defnyddio lleoliad' a gallai ganiatáu i breswylwyr ac ymwelwyr â'r ddinas ddod o hyd i'r cyfleusterau toiled addas agosaf ar eu dyfais symudol pan fyddant allan, ar yr adeg y mae eu hangen. Bydd swyddogaethau a chwmpas Cardiff Appd yn cael eu hadolygu yn ystod y misoedd nesaf a bydd y gwaith o ystyried cyfathrebu â thoiledau yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad hwn.

Pan fydd y prosiect mapio wedi'i gwblhau, mae'r un mor bwysig bod pobl yn gwybod bod y platfform hwn yn bodoli, felly bydd ymgyrch farchnata draddodiadol ac anhraddodiadol helaeth yn cael ei chynnal sy'n targedu'r bobl y nodir bod angen y gwasanaethau hyn arnynt fwyaf. Bydd hyn yn cynnwys dolenni uniongyrchol ar wefan Cyngor Caerdydd, sgyrtsbot BOBi, gwefan Caerdydd o Gyfleoedd i'r Henoed, gwefan Caerdydd sy'n Deall Dementia, posteri safleoedd bysus, hyrwyddiadau lorïau bin, taflenni, sgriniau meddygfeydd teulu, drwy sianeli cyfathrebu partner ac ati.



Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i gasglu data cywir a chyfredol ynghylch argaeledd toiledau cyhoeddus ar draws y ddinas.   Mae hyn yn cynnwys lleoliadau a gadarnhawyd yn flaenorol fel rhan o'r strategaeth gychwynnol, yn ogystal ag ychwanegu lleoliadau newydd sy'n cytuno i gymryd rhan.  Ar ôl cwblhau'r adolygiad data, bydd cronfa ddata Llywodraeth Cymru yn cael ei diweddaru, gyda'r data ar gael i'r cyhoedd drwy wefan Lle Geo-Borthol.  Mae Lle yn ystorfa ddata mynediad agored a ddefnyddir fel hyb ar gyfer data a gwybodaeth ynghylch sbectrwm eang o bynciau, ond ynghylch yr amgylchedd yn bennaf.

Y ddolen i'r porth "Lle" yw:  Lle - Map Toiledau Cenedlaethol (llyw.cymru)

Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu a diweddaru ystorfa ddata Lle o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gywir ar gael i'r cyhoedd, yn ogystal â chyhoeddwyr canllaw a mapiau.

## Protocolau glanhau a chynnal a chadw

Mae cyfleusterau toiled a gynhelir gan y Cyngor yn destun gwaith glanhau rheolaidd trwyadl. Mae'r holl doiledau ym mharciau Caerdydd yn cael eu glanhau o leiaf unwaith y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Caiff toiledau o fewn y Gwasanaethau Profedigaeth eu glanhau o leiaf unwaith y dydd, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Ymdrinnir â materion cynnal a chadw, megis toiledau sydd wedi torri, gan swyddogion pwrpasol o fewn y gwasanaeth. Cynhelir gwiriadau goruchwylwyr bob chwarter, a chynhelir adolygiad o broffiliau glanhau bob blwyddyn.

Mae toiledau o fewn Hybiau a Llyfrgelloedd hefyd yn cael eu glanhau'n ddyddiol gyda gwaith glanhau ychwanegol yn cael ei wneud yn ôl yr angen. Mae'r toiledau hefyd yn cael eu monitro'n rheolaidd iawn fel y gellir glanhau dros dro hefyd.


## Archwilio'r holl opsiynau sydd ar gael

Mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi amrywiaeth o leoliadau ar draws y ddinas sydd â chyfleusterau toiled sy'n bodoli eisoes, i archwilio a fyddent yn cytuno i ganiatáu i'w toiledau gael eu defnyddio gan bobl nad ydynt yn noddwyr a phobl sy'n pasio. Mae amrywiaeth o ddulliau'n cael eu defnyddio ar gyfer hyn, gan gynnwys cysylltu â rhwydweithiau busnes lleol a chysylltiadau unigol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau cyrhaeddiad eang ar draws y ddinas ac, yn y pen draw, yn cynyddu'r toiledau posibl sydd ar gael at ddefnydd y cyhoedd.

Mae ymgysylltu'n digwydd gyda grwpiau a rhwydweithiau ffydd lleol i archwilio'r posibilrwydd o adeiladau crefyddol yn caniatáu i'r cyhoedd gael mynediad i'w toiledau. Byddai hyn yn ehangu'r ystod o gyfleusterau toiled sydd ar gael, ac yn bwysig, yn cynnig opsiynau i bobl o amrywiaeth o gefndiroedd crefyddol.

## Ymgynghoriad

Fel rhan o waith Caerdydd i ymuno â Rhwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd o Ddinasoedd a Chymunedau sy'n ystyriol o Oedran, cynhaliwyd ymgynghoriad ar 10 Medi 2021 gydag aelodau o fforwm 50+ Caerdydd a chwsmeriaid Gwasanaeth Byw'n Annibynnol. Cynigiwyd y dewis i bobl hŷn gymryd rhan naill ai mewn sesiwn ddigidol neu wyneb yn wyneb yn Hyb Llyfrgell Ganolog Caerdydd, ac anogwyd y cyfranogwyr i feddwl yn barod am yr hyn a allai wneud Caerdydd yn lle gwell iddynt fyw ynddo.




Dosbarthwyd arolygon digidol a phapur hefyd i'r grŵp ehangach o aelodau a chwsmeriaid nad oeddent yn gallu bod yn bresennol, er mwyn ymestyn cyrhaeddiad y gwaith hwn.

Amlygwyd bod darpariaeth toiledau cyhoeddus yn y ddinas yn faes allweddol sy'n peri pryder i bobl hŷn. Yn benodol, canolbwyntiwyd ar ddiffyg gwybodaeth glir a hygyrch yn nodi lleoliad toiledau cyhoeddus o amgylch y ddinas. Awgrymodd y cyfranogwyr y byddai'n ddefnyddiol cynnwys cyfleusterau toiled ar ap a/neu wefan Cyngor Caerdydd, a gwnaeth un arall sylwadau ar ddiffyg arwyddion clir. Yn nodedig, roedd yn amlwg bod y mater hwn yn cael effaith sylweddol ar lefelau hyder pobl hŷn o ran mynd allan i'r gymuned, a dywedodd rhai eu bod yn adnabod pobl hŷn a fyddai'n penderfynu peidio â mynd allan am dro o ganlyniad.

O ganlyniad i'r ymgynghoriad, mae darpariaeth toiledau bellach wedi'i nodi fel maes ffocws allweddol yn rhaglen waith Dinasoedd o Gyfleoedd i'r Henoed y Cyngor.

**Mae'n fater mawr o hyder wrth fynd allan. Mae llawer o bobl rwy'n gwybod nad ydynt am fynd am dro oherwydd os oes angen i chi ddefnyddio'r toiled, mae problem gennych"**

**"Tybed sut rydych chi'n cael gwybod ble mae'r toiledau..."**

**"Dylai [cyfleusterau toiled] fod ar ap [Cyngor Caerdydd]"**

**"... fydd pobl ddim yn mynd allan os ydyn nhw'n bryderus... nid yw'n lle cyfeillgar os na allwch chi, gyda'ch plentyn, fynd i'r toiled"**

**"Mae'n lles cymdeithasol ac yn fy atal rhag mynd allan yn yr heulwen"**

**"Os ydych chi'n gwybod nad ydych chi'n gallu dod o hyd i'r toiled, dydych chi ddim eisiau mynd allan... mae'n gysylltiedig ag iechyd, yn gysylltiedig ag unigrwydd, popeth rydych chi'n ei wybod. Mae'n fy atal rhag mynd i lefydd rwy'n dwlu arnyn nhw fwya"**


**"Toiledau cyhoeddus – gydag arwyddion da ac oriau agor clir. Annog siopau i agor toiledau i'r cyhoedd. Dangos argaeledd ar y we"**

# Beth sy'n digwydd nesaf?

## Hyb Cymunedol Rhiwbeina

Adeilad Llyfrgell Rhiwbeina fydd y diweddaraf yn rhwydwaith Hybiau Cymunedol y ddinas gyda gwaith adnewyddu helaeth i'w gwblhau yn ystod 2022. Nod y prosiect hwn yw sicrhau cynaliadwyedd parhaus y cyfleuster gwerthfawr hwn, lle y caiff gwasanaeth llyfrgell modern ei ddarparu a lle y gall y Cyngor a sefydliadau partner hefyd ddarparu amrywiaeth o wasanaethau sy'n bodloni anghenion y gymuned y bydd yr Hyb yn ei gwasanaethu.

**Bydd y prosiect yn darparu toiledau cyhoeddus wedi'u hadnewyddu sy'n bodloni'r safonau hygyrchedd presennol.**



## Cyfnewidfa Fysus Caerdydd

Gan agor yn haf 2023, bydd Cyfnewidfa Fysus Caerdydd yn cael ei gweithredu a'i rheoli gan Trafnidiaeth Cymru (TrC). Mae'r Gyfnewidfa newydd gyffrous hon yn rhan annatod o'r rhwydwaith trafnidiaeth integredig y mae TrC yn ei adeiladu ar gyfer pobl Cymru. Bydd y cyfleuster bws newydd yn cynnwys 14 o mannau ar gyfer bysys, a hefyd yn darparu unedau manwerthu amrywiol a thoiledau cyhoeddus. Bydd y toiledau cyhoeddus yn y Gyfnewidfa yn cynnwys 8 toiled i'r ddau ryw, 2 doiled cwbl hygyrch, ystafell deuluol, a chyfleuster Lleoedd Newid. Bydd y toiledau cyhoeddus ar gael yn ystod oriau gweithredu'r Gyfnewidfa.




TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

## Datblygu Rhwydweithiau

Bydd mapio'r ddarpariaeth toiledau sy'n dod i'r amlwg ar draws y ddinas yn parhau. Bydd cyswllt hefyd yn digwydd gyda busnesau ac eraill yn y gymuned i nodi lleoliadau lle gallai toiledau fod ar gael i'r cyhoedd. Drwy rannu gwybodaeth â Manceinion, deellir bod ehangu eu cynllun toiledau cymunedol yn bosibl drwy ddull gwirfoddolwyr. Mae'r gwirfoddolwyr yn byw mewn ardaloedd lleol ac yn hyrwyddo'r prosiect yn ogystal â mynd at fusnesau a chaffis lleol ac ati. Mae'r gwirfoddolwyr hyn yn gwneud gwahaniaeth enfawr wrth iddynt ei hyrwyddo ar lafar yn y gymuned. Bydd y potensial i weithio gyda gwirfoddolwyr yng Nghaerdydd i ehangu ac ymgorffori cynllun toiledau Caerdydd mewn cymunedau yn cael ei archwilio yn ystod y misoedd nesaf.